Clwb Gwawr Cennin yn mwynhau yn y Paddlers, Llandysul.

'CLECS' O'R CLYBIAU

Llongyfarchiadau i Glwb Gwawr Glannau Teifi, y Clwb Gwawr cyntaf i ennill cystadleuaeth Rhaglen Orau'r mudiad. Dyma'r aelodau hapus yn dangos eu tystysgrif a'u gwobr.

Mari George yn derbyn tystysgrif a Thlws Cynnydd Aelodaeth rhanbarthau'r De ar ran Clwb Gwawr Ogwr.

Clwb Gwawr Llanfynydd ar eu taith gerdded flynyddol. Eleni fe fuon nhw am dro o gwmpas Llyn Llech Owain ger Cross Hands.

Clwb Gwawr Maelog yn ymweld â gwinllan ac yn mwynhau sgwrs am wenyn gan Paul Davies.

Clwb Gwawr Merched Hywel yn mwynhau paned.

Ar eu trip blynyddol aeth Clwb Gwawr Gwendraeth i Ganolfan Adar Pen-clacwydd, ac yna ar y cwch Copper Jack ym Mae Abertawe. Cawsant hanes yr ardal gan y capten a thipyn o hwyl yn diddori'r twristiaid gyda'u canu a'u barddoni!